Helo a Blwyddyn Newydd Dda gan bawb yn y DBS!

Dros fis i mewn i weithredu fel y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gobeithiwn, o'ch rhan chi, ei bod yn fusnes fel arfer. Bydd 2013 yn flwyddyn brysur i bob un ohonom wrth i ni lansio'r Gwasanaeth Diweddaru yn y gwanwyn eleni a chyflwyno'r dystysgrif sengl i ymgeiswyr. Gallwch ddarllen mwy am y datblygiadau hyn yn y rhifyn hwn.

Mae Newyddion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gael ar www.homeoffice.gov.uk/dbs-news neu trwy glicio ar "Newyddion DBS" yn adran Cyhoeddiadau ein gwefan. Os ydych chi eisiau helpu'r amgylchedd, dewiswch y fersiwn electronig trwy anfon e-bost atom yn communications@dbs.gsi.gov.uk gyda'ch cyfeiriad e-bost a rhif Cydlofnodydd. Neu ffoniwch ni ar 0870 90 90 811.

Rydym wedi cael adborth arbennig ynglŷn â Newyddion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) – diolch yn fawr! Rydym eisiau gwneud ein gwybodaeth yn hawdd i'w deall a rhoi gwybod i chi am bopeth fyddwch angen i allu gwneud eich gwaith. Os gallwn helpu gydag unrhyw beth, rhowch wybod i ni yn customerservices@dbs.gsi.gov.uk.

Dymuniadau Gorau

Adriènne Kelbie
Prif Weithredwr

**Pwy sydd â'r hawl i gael gwiriad rhestr gwahardd?**

O ganlyniad i'ch adborth, rydym yn sylweddoli fod angen i ni egluro pwy sydd â hawl i wiriad rhestr gwahardd. Daeth y Ddeddf Diogelu Rhyddidau i rym ym Medi 2012. Fe newidiodd y diffiniad o Weithgaredd Reoledig yn cynnwys pwy oedd yn gymwys am wiriad rhestr gwahardd.

Felly dyma restr wirio o'r swyddi sydd nawr yn gymwys am wiriad y rhestr gwahardd Plant ac/neu Oedolion:

Plant

- Y rhai mewn Gweithgaredd Reoledig gyda phlant (y diffiniad newydd)
- Rhieni maeth
- Rhieni mabwysiadol
- Ymgeiswyr am drwydded Tacsi neu Hur Gerbyd Preifat (PHV)
- Unigolion 18 oed a hŷn sy'n byw yn yr un cartref â mabwysiadwr posibl

Unigolion 16 oed neu hŷn:

- yn byw yn yr un cartref â rhiant maeth neu ddarpar riant maeth – yn cynnwys maethu preifat

- sy’n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd gan eu bod yn byw neu weithio ar yr eiddo ble darperir gofal dydd neu warchod plant, neu y bydd yn cael ei ddarparu
- sydd â chyswllt rheolaidd gyda phlant ac sy’n aelodau o gartref unigolyn sy’n cael ei asesu i ddibenion cymryd rhan mewn Gweithgaredd Reoledig. Er enghraifft, cymar rheolwr ysgol breswyl ble mae’r rheolwr a’r cymar yn byw ar safle’r ysgol

Oedolion

- Y rhai mewn Gweithgaredd Reoledig gydag oedolion (y diffiniad newydd)
- Ymgeiswyr am drwydded Tacsi neu PHV

**Y Gwasanaeth Diweddaru – yn dod yn fuan!**

Byddwch y cyntaf i glywed am y gwasanaeth newydd cyffrous hwn a newidiadau yn y dyfodol trwy danysgrifio yn www.homeoffice.gov.uk/dbs-subscribe

Yn y gwanwyn byddwn yn lansio cynnyrch newydd sbon; y Gwasanaeth Diweddaru. Bydd hyn yn newid y modd yr ydym yn cyflawni ein gwiriadau cofnodion troseddol yn ddramatig, gan ei gwneud yn llawer cyflymach a haws i chi recriwtio neu ailwirio eich cyflogeion a gwirfoddolwyr. Rydym yn falch iawn i gyhoeddi y bydd y Gwasanaeth Diweddaru yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr. Bydd yn costio tua £10 i bawb arall.

Pan fyddwch yn cyflogi staff newydd, os ydynt wedi cofrestru gyda’n Gwasanaeth Diweddaru newydd, yr oll sydd angen i chi wneud yw gofyn i weld eu tystysgrif DBS a chyflawni gwiriad am ddim, ar-lein i weld a yw’n dal yn ddilys a chyfredol. Meddyliwch, fydd dim rhaid llenwi rhagor o ffurflenni a bydd ailwirio yn dod yn llawer cyflymach a haws i’w wneud.

Pan fyddwn yn lansio’r gwasanaeth, bydd ymgeiswyr yn gwneud cais am wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (yn y ffordd arferol). Ar yr un pryd, byddant yn gallu gwneud cais i gofrestru ar-lein ar gyfer y Gwasanaeth Diweddaru. Os ydynt yn gwneud hyn, byddant yn gallu mynd â’u tystysgrif DBS gyda nhw, o un swydd i’r llall (yn yr un sector), ac efallai na fyd rhaid iddynt ymgeisio am un arall, fyth eto. Byddwch chi hefyd yn elwa, gan y byddwch yn gallu gwirio'r dystysgrif DBS ar-lein a chael canlyniadau ar unwaith.

Os ydych eisiau bod y cyntaf i gael gwybod mwy am y Gwasanaeth Diweddaru, cofrestrwch eich diddordeb ar-lein yn www.homeoffice.gov.uk/dbs-subscribe.

Bydd prifysgolion yn elwa os yw myfyrwyr yn ymuno â’r Gwasanaeth Diweddaru gan y gallant eu symud yn gynt a hawdd rhwng lleoliadau.

Bydd Prifathrawon yn elwa os fydd staff yn ymuno â’r Gwasanaeth Diweddaru gan y gallant gyflawni ailwiriadau ar-lein am ddim, gan arbed amser ac arian.

Bydd Asiantaethau Recriwtio yn elwa os yw staff yn ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru gan y byddant yn gallu eu lleoli yn llawer cynt i swyddi – gan arbed amser ac arian i ni a'r cleient.

**Newyddion gwahardd – beth y gallwn ac na allwn wneud**

Un o'n pryf gyfrifoldebau yw gwneud penderfyniadau gwahardd annibynnol. Nid oes gennym unrhyw bwerau i ymchwilio gan ddibynnu ar wybodaeth gennych chi i hysbysu ein penderfyniadau gwahardd.

Mewn ambell achos mae yna ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio pobl atom:

- Os yw cyflogwr yn symud neu ddiddymu rhywun yn barhaol oherwydd bod tystiolaeth iddynt niweidio oedolyn bregus neu blentyn; neu

- Os oes tystiolaeth fod rhywun yn cyflwyno risg o niwed i oedolyn bregus neu blentyn.

Rydym yn adolygu gwybodaeth ar atgyfeiriad a thystiolaeth a ddarparwyd ac, os oes angen, gallwn ofyn am wybodaeth gan ffynonellau eraill megis yr heddlu a'r awdurdod lleol perthnasol.

Gallwn hefyd ofyn am ragor o wybodaeth gan ddarparwr y Gweithgaredd a Reoleiddir os na ddarparwyd yr wybodaeth gyda'r atgyfeiriad gwreiddiol. Mae'n bwysig iawn yr anfonir cymaint o wybodaeth berthnasol atom ar y cyfle cyntaf i osgoi oedi gyda'r adolygiad.

Mewn achosion ble fydd rhywun wedi ei wahardd, byddant yn cael derbyn hysbysiad trwy lythyr ac ni fyddant bellach yn cael gweithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir.
Bydd cyflogwyr ac unigolion sydd wedi cofrestru diddordeb cyfreithlon yn yr unigolyn yn derbyn hysbysiad o'r penderfyniadau gwahardd. Os nad yw'r unigolyn yn cael ei wahardd, byddant yn cael hysbysiad ysgrifenedig o hyn.

Nid oes gennym rym i hysbysu unrhyw unigolion na sefydliadau eraill o'r penderfyniad, yn cynnwys cyflogwr allai fod wedi diswyddo'r unigolyn am nad oes ganddynt ddiddordeb cyfreithiol yn yr unigolyn mwyach.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan y DBS yn www.homeoffice.gov.uk/dbs neu ffoniwch ein llinell gymorth ar 01325 953 795.

**Cynllun Iaith Gymraeg – dewis chwilio gwefan newydd**

Mae rhai ohonoch yn cael anhawster dod o hyd i Gorff Cysgodol sy'n delio â cheisiadau DBS yn Gymraeg.  Rydym wedi gwrando arnoch a chreu maes chwilio newydd ar y gronfa ddata Cyrff Cysgodol.

Mae 168 o Gyrff Cysgodol yn cynnig ein gwasanaethau yn Gymraeg. Gallwch ddod o hyd i'r rhain trwy nodi'r dewis Cymraeg yn www.homeoffice.gov.uk/ub-search. Gellir hefyd defnyddio'r cyfleuster chwilio Corff Cysgodol i chwilio am Gorff Cysgodol neu i ddiweddaru eich manylion.

**Ffurflenni cais**

Bydd angen i chi ddechrau ystyried pa ffurflen a roddwch i'ch ymgeiswyr ei chwblhau. Y dyddiad olaf y gallwn dderbyn a phrosesu ceisiadau ar ffurflenni brand y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yw 28 Chwefror 2013. Bydd unrhyw ffurflenni brand a dderbynnir wedi hyn yn cael eu gwrthod.

Rydym yn awgrymu mai'r dyddiad olaf i bostio ffurflenni cais brand y CRB yw 21 Chwefror. Bydd angen i chi ailgyflwyno eich cais ar ffurflen gais DBS os y'i derbynnir wedi 28 Chwefror 2013. O 1 Mawrth 2013, dim ond ffurflenni cais DBS a dderbynnir.
Gallwn weld eich bod wedi bod yn archebu ffurflenni cais i baratoi ar gyfer 1 Mawrth 2013. Os nad ydych wedi eu harchebu eto, dylech ddal i ddefnyddio eich ffurflenni cais brand CRB tan 28 Chwefror 2013. Os ydych dal angen archebu ffurflenni cais Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i'w cyflwyno o 1 Mawrth 2013, cyflwynwch archeb cyn 28 Chwefror 2013, gan gadw at eich patrwm archebu arferol.

Diolch i chi am eich cymorth i helpu sicrhau trosiant esmwyth i'r DBS.

**Bwrdd y DBS**

Meddyliom y byddem yn rhannu gyda phawb benodiad Bwrdd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i ddangos i chi pwy fydd yn dod â gwasanaethau'r DBS i chi.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys ein Cadeirydd, Bill Griffiths, a'r aelodau canlynol: Adriènne Kelbie (CEO), Adele Downey (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol), Sue Quigley (Cyfarwyddwr Gweithrediadau - Datgeliad), David Clarke, Caroline Tapster, Dr Bernard Herdan CB, Donald Findlater, Mehmuda Mian, Richard Black OBE a Tom Davies.

Mae dau o'n Cyfarwyddwyr Corfforaethol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Sef: Janet Gauld (Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Gwahardd) a Barbara Howard (Cyfarwyddwr Trosiant).
Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:

- goruchwylio perfformiad y DBS
- sicrhau y cyflawnir ein dyletswyddau cyfreithiol

- gweithio gyda’n Tîm o Uwch Reolwyr
- cynrychioli’r DBS yn allanol.

Bydd Bill yn gweithio’n agos gydag Adriènne i sicrhau’n bod yn cyflawni’r cyfeiriad a osodwyd gan y Bwrdd ac felly’n darparu’r gwasanaethau gorau i chi.